**C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL**
**08-10-08**

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd Pat Larsen, (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Huw Edwards, (Is-gadeirydd)

**Aelodau Cyngor Gwynedd :** Y Cynghorwyr: Selwyn Griffiths, Aeron Jones, Guto Rhys Thomas, Stephen Churchman.

**Cristnogion a chrefyddau eraill:** Mrs. Ruth Davies, (Undeb Bedyddwyr Cymru), Mr Cynrig Hughes, (Yr Annibynwyr), Mr Gwyn Hefin Jones, (Eglwys Bresbyteraidd Cymru), Mr Wyn Myles Meredith, (Eglwys Fethodistaidd), Y Parch Ganon Tegid Roberts, (Yr Eglwys Yng Nghymru Esgobaeth Bangor)

**Athrawon:** Mr Noel Dyer, (UCAC), Mr Paul Mathews Jones, (ASCL).

**Aelod cyfetholedig:** Mr Rheinallt Thomas,

**Swyddogion :** Mr Owen Owens, (Uwch Reolwr Gwasanaeth Ysgolion), Miss Bethan James,(Ymgynghorydd Dyniaethau), Mr Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Dafydd Roberts, Carol Llywelyn Jones, (Athrawes Ymgynghorol Dyniaethaul) ac Eirian Bradley-Roberts, (Yr Eglwys Gatholig),

## 1. GWEDDI

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Mr Rheinallt Thomas.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol am y rhesymau a nodir:

- Y Cynghorydd Pat Larsen yn eitem 10 ar y rhaglen, Arolygiadau Ysgolion, oherwydd bod ei mab yn Brifathro ar Ysgol Rhostryfan.
- Y Cynghorydd Aeron Jones yn eitem 10 ar y rhaglen, Arolygiadau Ysgolion, oherwydd ei fod yn aelod o Fwrdd Llywodraethol Ysgol Rhostryfan.

‘Roedd yr aelodau o’r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu. Ni adawsant y cyfarfod a chymerwyd rhan lawn ganddynt yn y drafodaeth ar yr eitem.

## 3. CYHOEDDIADAU’R CADEIRYDD

a) Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i groesawu nifer o aelodau newydd i’r cyfarfod a rhoddwyd cyfle iddynt gyflwyno eu hunain.
b) Anfonwyd cofion at y Swyddog Addysg, Mr John Blake, a anafwyd mewn damwain yn ddiweddar ac at Carol Llewelyn Jones, sy’n gwella ar ôl derbyn llawdriniaeth.

## 4. TEYRNGED

Talwyd teyrnged i Mr Hywel Evans, a fu farw'n ddiweddar, gan Mr Rheinallt Thomas a gyfeiriodd at ei gyfraniadau hynod i Addysg Grefyddol yng Nghymru.
Dechreuodd Mr Evans ar y gwaith o arwain cyrsiau Addysg Grefyddol yng Ngholeg Prifysgol Bangor yn 1962, ac yn ddiweddarach yn ei yrfa, bu'n Bennaeth Ysgol Aber Conwy a Choleg Cartrefle.
Cyfeiriodd Mr Thomas yn arbennig at waith Hywel Evans fel Cadeirydd cyntaf Cyngor Cwricwlwm Cymru a'r modd y gosododd sylfaeni cadarn i sicrhau fod Cymru yn torri cwys ei hun.
Hyd ei farwolaeth, 'roedd Mr Evans yn Is-ysgrifennydd CYSAGau Cymru ac yn Llywydd Anrhydeddus Mudiad Addysg Grefyddol Cymru.
Gan danlinellu ei waith arloesol cyfeiriodd Mr Thomas at gyfraniad Hywel Evans fel yr un oedd yn gyfrifol am holl gyrsiau Arweinyddion Ieuenctid yn y 60au a'r 70au cynnar pan oedd yn gweithio yn y Coleg ym Mangor.

Mae Mr Evans yn gadael pump o blant. Cydymdeimlwyd â'r teulu yn eu profedigaeth, a safodd pawb am ennyd mewn tawelwch fel arwydd o barch.

## 5. COFNODION

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar y 18 Mehefin 2008.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

## 6. MATERION YN CODI O'R COFNODION

Cyfeiriwyd at eitem rhif 5 ar y cofnodion, Arweiniad Ar Arolygu Addoli Ar Y Cyd Mewn Ysgolion Anenwadol.
Mynegwyd pryder gan fod y ddogfen wedi ei darparu yn Saesneg gan ESTYN cyn cael ei hanfon i'w chyfieithu gan gwmni Trosol. 'Roedd rhai aelodau o'r farn y dylai aelodau gweithlu Corff fel ESTYN fod â'r gallu i ddarparu dogfennau o'r fath yn y Gymraeg.
Credai eraill y dylid rhoi blaenoriaeth i ansawdd y ddogfen derfynol.

Nodwyd gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau nad oedd wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddarparu 'r ddogfen na thrafodaethau ynglŷn â phenodiadau. Fodd bynnag, gwyddai fod Grŵp Ymgynghorwyr Addysg Grefyddol wedi bod yn ysgrifennu'n gyson yn gwahodd yr Arolygydd sydd mewn gofal Addysg Grefyddol i fynychu eu cyfarfodydd, ond na welwyd neb cymwys hyd yma.

**PENDERFYNWYD gwneud cais i ymdrechion gael eu gwneud i gryfhau adnoddau ESTYN fel bod modd iddynt ddarparu dogfennau, ym maes Addysg Grefyddol, yn y Gymraeg.**

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau Adroddiad Blynyddol Drafft CYSAG Gwynedd am y flwyddyn academaidd 2007-08 er cymeradwyaeth yr aelodau cyn cyhoeddi copi terfynol.

Cyfeiriodd at y dulliau a ddefnyddir i roi sylw cyson i safonau Addysg Grefyddol. Bellach nid yw pob pwnc ar y Cwricwlwm Cenedlaethol yn cael eu harolygu, ac felly nid oes cymaint o adroddiadau Addysg Grefyddol yn cael eu derbyn. Ond er mwyn parhau i fonitro safonau Addysg Grefyddol, gofynnir i Ysgolion Gwynedd, yn ystod blwyddyn eu harolygiadau, gyflwyno crynodeb o'u hunan arfarnu.

Bydd hyn yn amlinellu'r llwyddiannau a'r materion fydd yn cael sylw pellach ganddynt yn y flwyddyn ddilynol. Eisoes dechreuwyd ystyried yr adroddiadau yma.

Cyfeiriwyd ymhellach at y camau gwahanol mae'r Awdurdod Addysg yn ei gymryd i ymateb i waith CYSAG fel Corff sy'n monitro Safonau.

O ystyried y cysylltiad gyda'r Cynulliad, credai'r Ymgynghorydd Dyniaethau y bydd gwaith APADGOS, sy'n cyflwyno fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol, yn haws oherwydd bod y rhan fwyaf o Awdurdodau yng Nghymru wedi mabwysiadu'r Maes Llafur Enghreifftiol. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i sicrhau Safonau Addysg Grefyddol yn Genedlaethol yn hytrach nag yn sirol.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd nad oes bwriad i ail-drefnu cwrs ar 'Ddatblygu sgiliau llafaredd disgyblion mewn gwersi Addysg Grefyddol. Canslwyd y cwrs oherwydd salwch, a'r bwriad bellach yw cymhwyso'r cynnwys ar gyfer cwrs arall sydd i'w gynnal yn Arfon y tymor hwn ac ym Meirion/Dwyfor y tymor nesaf.

Cadarnhawyd hefyd fod nifer helaeth o athrawon Gwynedd wedi mynychu cyrsiau cynradd a gynhaliwyd rhwng Ebrill 2007 a Mawrth 2008 er nad oedd manylion ar y niferoedd ar gael i'w rhoi ar y rhaglen.

Mewn ymateb i ymholiad amlinellwyd y gwaith a wneir i hybu brwdfrydedd plant trwy ddefnyddio gwefan 'Moodle' ar y cyfrifiadur.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gyda diolch i'r swyddogion fu'n ymwneud â'r gwaith o'i chynhyrchu.**

## 8. CANLYNIADAU ADDYSG GREFYDDOL 2008

Cyflwynwyd adroddiad yr Ymgynghorydd Dyniaethau ar ganlyniadau Addysg Grefyddol 2008. O safbwynt CA3, nodwyd bod yr adroddiad yn cael ei chyflwyno er gwybodaeth yn unig gan nad yw'r disgyblion wedi wynebu'r un profion na thasgau asesu cyffredin ar draws y sir. Yn ogystal, nid yw'r athrawon wedi cael cyfleoedd rheolaidd i safoni gwaith y disgyblion gydag adrannau eraill.

Rhoddwyd ystyriaeth i ganlyniadau TGAU2008, ac ymysg y materion a nodwyd 'roedd y cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr, - 79 yn 2007 a 197 yn 2008. Ychwanegwyd bod y merched yn gwneud yn well na'r bechgyn ond bod 74.6% o'r ymgeiswyr yn ennill graddau rhwng A* ac C. Nodwyd bod 31.1% o'r ymgeiswyr yn ennill gradd A*.

Daw'r ymgeiswyr o 12 o ysgolion Gwynedd, ac o'r 2 sy'n weddill, 'roedd yr Ymgynghorydd Dyniaethau yn ffyddiog y bydd un gydag ymgeiswyr y flwyddyn nesaf gan fod athrawes frwdfrydig newydd ei phenodi yno.

Cyfeiriodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau at ddyfodol Addysg Grefyddol a gwerth 'Cwrs Byr' sydd ar gael i ddisgyblion Blwyddyn 10 sy'n wynebu'r gofyn statudol i ddilyn cwrs Addysg Grefyddol er na fyddant bob tro yn sefyll arholiad yn y pwnc. Gyda'r 'Cwrs Byr' cyflwynir hanner cwrs TGAU yn arwain at arholiad a allasai gydnabod y gwaith a wnaed.

Pwysleisiwyd bod y Cwrs Byr yn hynod gyfoes, gyda'r nifer o'r disgyblion yn mynd ymlaen i ddilyn cwrs Astudiaethau Crefyddol yn y chweched dosbarth. Ychwanegwyd bod nifer y cyrsiau a gynigir mewn ysgolion yn cynyddu, an yn sgil hyn, bydd nifer y rhai sy'n dilyn Astudiaethau Crefyddol yn disgyn.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 9 ADDYSG GREFYDDOL AR LAWR Y DOSBARTH

**a)** Cafwyd cyflwyniad gan Mrs Eleri Moss, Pennaeth Dyniaethau yn Ysgol y Moelwyn, pryd y rhoddwyd braslun o'r hyn a arweiniodd i'r ysgol dderbyn Rhagoriaeth o Radd 1 yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4 yn dilyn arolwg gan Arolygwyr Estyn.

Cyfeiriodd yr athrawes wybodaeth am y patrwm a ddilynir mewn gwersi gan egluro fod hyn yn cynnwys gosod nod pendant ar y cychwyn a thrafodaeth ar y llwyddiant o gyrraedd y nod ar y terfyn.

Bu datblygiadau cyson o safbwynt cyflwyno Addysg Grefyddol yn Ysgol y Moelwyn, a bellach ni cheir trafferth i ddenu bechgyn a merched i astudio'r pwnc. Amlinellwyd y gwaith a wneir i sicrhau bod gweithgaredd ar ddechrau'r wers i ddenu sylw'r disgyblion.

Yn ogystal trefnir tasgau i ddatblygu'r meddwl, ac yr oedd yr Arolygwr wedi rhoi cryn ganmoliaeth i'r wers 'Oes 'na Dduw?' a oedd ar gyfer Blwyddyn 10. Yn y wers 'roedd y disgyblion yn gweithio mewn parau i drafod. Pan gafwyd cyfle i roi barn derfynol, 2 ddisgybl yn unig oedd yn bendant bod yna Dduw, 'roedd nifer yn cyflwyno dadleuon o blaid ac yn erbyn, ac eraill yn bendant nad oedd Duw.

Cyfeiriodd yr Arolygwr yn arbennig at y modd yr oedd pob disgybl wedi lleisio barn. Tynnwyd sylw ganddo hefyd at y ffaith mai 2 ddisgybl yn unig oedd yn datgan yn bendant bod yna Dduw, ac eto, 'roedd canran uchel o ddisgyblion yr ysgol yn dewis dilyn y pwnc.

'Roedd yr Arolygwr wedi rhoi canmoliaeth uchel i'r system a ddefnyddir wrth asesu gwaith plant sy'n rhoi cyfle i ganmol a nodi dymuniad am yr hyn fyddai'r athro yn hoffi ei weld yn y gwaith. Nodwyd gan yr athrawes mai'r Ymgynghorydd Dyniaethau oedd wedi cyflwyno'r syniad yma iddynt.

Ychwanegodd yr athrawes bod amrywiol weithgareddau, megis drama, yn cael eu trefnu, a chyfeiriodd at gydweithrediad athrawon eraill yr ysgol gyda gwaith o'r fath.

Trefnwyd ymweliadau â nifer o addoldai fel eu bod yn dod yn ymwybodol o arferion crefyddau eraill. Profiad arbennig i ddisgyblion Blwyddyn 10 oedd teithio i Wlad Pwyl i ymweld ag Awschwitz. Trefnir amrywiol weithdai a mân deithiau hefyd ar gyfer Blwyddyn 11.

'Roedd rhai diffygion gan gynnwys diffygion atalnodi a sillafu, yr angen i ddefnyddio mwy ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol a diffyg rhai i gyfrannu mewn trafodaethau gyda dosbarthiadau llawn, er nad yw hyn yn wir pan fyddant yn gweithio mewn parau neu grwpiau.

Nodwyd bod yr Arolygwr wedi cyfeirio at y cysylltiad rhwng CYSAG a'r ysgol. 'Roedd aelodau CYSAG yn awyddus i dynnu sylw at hyn.

I gloi, diolchodd yr athrawes i aelodau CYSAG ac i'r Ymgynghorydd Dyniaethau am ei chymorth a'i chyngor adeiladol.

Cyfeiriodd Mr Wyn Myles Meredith at Ymddiriedolaeth Dr Daniel Williams sy'n bodoli ym Meirionnydd, ac awgrymodd y gallasai Ysgol y Moelwyn wneud cais am gefnogaeth ariannol wrth drefnu'r amrywiol deithiau

Diolchwyd i Mrs Moss am y cyflwyniad, ac fe'i llongyfarchwyd hi a'r holl adran yn Ysgol y Moelwyn ar y llwyddiant.

**b) cryno ddisgiau**

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau wybodaeth am gryno ddisgiau sydd ar gael fel adnoddau a allasai fod o fudd i Ysgolion Cynradd ac Uwchradd.
Eisoes defnyddiwyd y cryno ddisg, 'Sut beth yw bod yn Gristion', a ddarparwyd gan gwmni R.E. Quest, mewn sawl ysgol. Bellach maent wedi tacluso a gwella'r cryno ddisg ond nid yw ar gael yn Gymraeg.

Yn ogystal, cyfeiriodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau at gryno ddisg dan y teitl 'Jewish Way of Life,' a oedd yn cael ei chynnig gan 'The Pears Foundation.' Nodwyd nad yw'r cryno ddisg yma ar gael yn y Gymraeg ac nad oedd bwriad i'w chyfieithu
'Roedd nifer o aelodau'n credu y gallasai'r cryno ddisgiau fod yn adnodd ychwanegol i ysgolion ond 'roeddynt yn awyddus i'w cael yn ddwyieithog.

Awgrymwyd hefyd mai gwell fyddai rhyddhau'r cryno ddisgiau i'r ysgolion, yna byddai modd iddynt hwythau ddewis beth oeddynt am ei gyfieithu.

**PENDERFYNWYD ysgrifennu at Swyddog Pwnc APADGOS, Denize Morris, gan ofyn iddi wneud ymholiadau i'r posibilrwydd o gael y cryno ddisgiau drwy gyfrwng y Gymraeg.**

**10. ADDYSG GREFYDDOL AC APADGOS**

Cyflwynwyd adroddiad yr Ymgynghorydd Dyniaethau ar gynhadledd ar 'Addysg Grefyddol i Oedolion Ifanc 14-19, ' a gynhaliwyd yn Fflint ar 4 Hydref, 2008 dan nawdd APADGOS a Chymdeithas CYSAGau Cymru.

'Roedd yn hynod fuddiol bod modd mynychu'r gynhadledd naill ai yn Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn y Fflint neu yng Ngholeg Dewi Sant, Caerdydd. Defnyddiwyd offer fideo gynadledda i gysylltu'r siaradwyr oedd yn bresennol yn y ddau safle.

Cyfeiriodd y swyddog at y cyflwyniadau a gafwyd yn ystod y bore gyda sylw'n cael ei roi i'r meysydd canlynol:
i) Cyfraniad Addysg Grefyddol i'r craidd dysgu ar gyfer dysgwyr 14-19 oed – siaradwr, Denize Morris, Swyddog Pwnc APADGOS
ii) Cynadleddau undydd a gynhelir gan y mudiad, DARE2ENGAGE wrth iddynt annog disgyblion 16-19 oed i 'Ymdrin â'r Ysbrydol' - siaradwr Lat Baylock (RE TODAY)
iii) Y pwysigrwydd bod heddweision yn dangos dealltwriaeth o ddiwylliant a daliadau crefyddol y cymunedau yr oeddynt yn eu gwasanaethu, - siaradwr Pam Kelly, Ditectif Brif Arolygydd Heddlu Dyfed –Powys.

Yn ogystal, dangosodd Ian Russell, Athro Iechyd Cyhoeddus Bangor, nad oedd yr hyfforddiant proffesiynol i weithwyr Iechyd, hyd yma, wedi archwilio'n llawn i ddylanwad credoau a ffydd mewn iechyd.

Mynegodd Emyr Williams ac Alice Pyke, sy'n fyfyrwyr Graddedig AG eu profiadau personol ynglŷn ag Addysg Grefyddol. Rhannwyd hefyd ymatebion aelodau 'Y Ddraig Ffynci' i holiaduron a luniwyd er mwyn casglu canfyddiadau pobl ifanc yng Nghymru o Addysg Grefyddol.

Yn bresennol hefyd 'roedd Jane Hutt, Gweinidog yr Adran Plant Addysg, a oedd yn croesawu ymdrechion athrawon, swyddogion AALl, APADGOS a Chymdeithas CYSAGau Cymru i gydweithio.

Yn ystod y prynhawn, dosbarthwyd deunydd addysgu a dysgu gwerthfawr gyda'r cynadleddwyr yn cael cyfleoedd i dreialu rhai o'r gweithgareddau. Cyfeiriwyd at y deunydd sydd ar gael yn ddwyieithog. Nodwyd hefyd bod APADGOS wedi cyhoeddi 'Addysg Grefyddol- Canllawiau ar gyfer dysgwyr 14-19 oed' er mwyn sicrhau darpariaeth Addysg Grefyddol o safon uchel ar gyfer yr oedran yma.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gyda diolch i'r Ymgynghorydd Dyniaethau am fynychu'r gynhadledd ac am y cyflwyniad .**

## 11. AROLYGIADAU YSGOLION

Cyflwynwyd:

**(a)** Gwybodaeth ar gynnwys adroddiadau arolygiadau ysgolion dan Adran 28 Deddf Addysg 2005 mewn perthynas ag Addysg Grefyddol a Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol y disgyblion.

**(b)** Crynodeb o hunan arfarniad yr ysgolion canlynol:

- **Ysgol Gwaun Gynfi**
- **Ysgol y Ganllwyd**
- **Ysgol Y Gorlan, Tremadog,**
- **Ysgol Crud y Werin,**
- **Ysgol Beuno Sant, Y Bala**
- **Ysgol Tryfan.**

Adroddwyd gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod naw o ysgolion Gwynedd wedi eu harolygu ers y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn. Dim ond un o'r rhain, sef Ysgol Talsarnau, oedd wedi derbyn arolygiad mewn Addysg Grefyddol fel pwnc penodol derbyniodd yr ysgol Radd 2 heb unrhyw ddiffygion pwysig yn cael eu nodi.

Gyda'r gweddill o'r ysgolion, rhoddwyd sylw i Gwestiwn Allweddol 3 sy'n cyfeirio at: 'Pa mor dda mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Derbyniodd saith o'r ysgolion Radd 2, gydag Ysgol y Gorlan, Tremadog yn derbyn Gradd 1.

Nodwyd gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod y sylwadau a wnaed o safbwynt datblygiad ysbrydol y plant yn canmol ymdrechion yr ysgolion.

Cyfeiriwyd at yr adroddiadau a dderbyniwyd ar Hunan Arfarniadau Ysgolion a diolchwyd iddynt am eu cydweithrediad a'r modd yr oeddynt yn nodi eu targedau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys yr arolygiadau a'r hunan arfarniadau a gofyn, yn unol â'r drefn, i'r Swyddog Addysg anfon llythyr at yr ysgolion uchod yn eu llongyfarch am eu llwyddiant a nodi gwerthfawrogiad CYSAG o'r ymdrechion a wneir gan yr ysgolion i gyrraedd y graddau.**

## 12. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU

### a) Cyfarfod y Gymdeithas

Cyflwynwyd cofnodion o'r Gymdeithas a gynhaliwyd yn Yr Wyddgrug ar 26 Mehefin 2008, a chadarnhawyd bod Mr Wyn Myles Meredith yn bresennol yno.

**PENDERFYNWYD derbyn y cofnodion.**

**b) Presenoldeb**

Cyflwynwyd llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Ysgrifennydd Cymdeithas CYSAGau Cymru ynglŷn â phresenoldeb mewn cyfarfodydd.

Yn y llythyr nodwyd bod pryder wedi ei fynegi mewn cyfarfodydd o achos presenoldeb gwan.

Ystyriwyd y llythyr a nodwyd na fu presenoldeb ardal Gwynedd yn gryf yn y cyfarfodydd yn y gorffennol. Rhoddwyd sylw i gyfraniad Mr Wyn Myles Meredith sy'n un o'r rhai sy'n mynychu cyfarfodydd y Gymdeithas.

Cyfeiriwyd at bwysigrwydd y cyfarfodydd a nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd sydd i ddod.

**PENDERFYNWYD y dylai'r aelodau gynnal trafodaethau pellach mewn ymdrech i gryfhau cynrychiolaeth Gwynedd yng Nghyfarfodydd y Gymdeithas.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 4:15pm

**CADEIRYDD**